**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI LGH-16-02**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2002**

**Teitl: LGH-16-02 (p. 3) Polisi ar Gamddefnyddio Sylweddau**

**Diben**

1. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2002, cytunodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gyflwyno papur i'r Pwyllgor yn ystod yr hydref ar y polisi camddefnyddio sylweddau.

**Crynodeb**

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu sut mae'r Gweinidog yn bwriadu delio â phroblemau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

**Y Cefndir**

Y Cyd-destun

1. Cafodd strategaeth y Cynulliad ar gamddefnyddio sylweddau, *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth,* ei lansio ym mis Ebrill 2000. Mae'r strategaeth yn ymdrin â chyffuriau anghyfreithlon, alcohol, meddyginiaeth a geir ar bresgripsiwn a thros y cownter, a sylweddau anweddol. Mae iddi bedwar nod allweddol, sy'n canolbwyntio ar:

- *Atal plant, pobl ifanc ac oedolion rhag camddefnyddio sylweddau;*
- *Amddiffyn teuluoedd a chymunedau rhag y problemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau*;
- *Trefnu bod mwy o driniaeth effeithiol ar gael*;
- *Ceisio sicrhau bod llai o gyffuriau anghyfreithlon ar gael, a llai o gyfle i gael gafael ar gyffuriau eraill trwy ddulliau amhriodol*.

1. Safbwynt y Gweinidog yw bod y diffygion mwyaf difrifol yn ymwneud â'r gwasanaethau trin sydd ar gael. Yn y tymor byr y brif flaenoriaeth yw ei gwneud yn haws i gael triniaeth.

**Ei gwneud yn haws i gael triniaeth**

5 Gall triniaethau weithio: -

a. gall helpu pobl i drechu eu dibyniaeth;

a. nid yw bob amser yn hawdd cael triniaeth yng Nghymru ar hyn o bryd;

a. mae'n bwysig bod triniaethau ar gael yn syth;

a. mae ymchwil yn nodi bod gwario arian ar driniaeth yn lleihau troseddau.

**Cyllid Newydd ar gyfer Triniaethau**

6 Mae ymchwil wedi dangos fod amrywiadau mawr yn y driniaeth a gynigir mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mewn rhai ardaloedd mae rhestri aros hir iawn sy'n amlwg yn atal rhai rhag ceisio cymorth. Yn ogystal, mae ymchwil ragarweiniol yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y camddefnyddwyr sylweddau problematig yng Nghymru ers 1996.

7. Er mwyn delio â'r materion hyn, cyhoeddodd y Gweinidog gynnydd sylweddol, graddol yn yr arian fydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau trin dros y tair blynedd nesaf.

8. Mae'r GIG yn gwario tua £12.0 miliwn y flwyddyn ar driniaeth ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, serch hynny, mae'r gwariant yn amrywio ledled Cymru ac nid yw o reidrwydd yn diwallu'r galw. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi y bydd yr elfen hon o arian y GIG yn cael ei phennu ac y bydd y newidiadau'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol.

9 Mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer Mentrau Cyffuriau ac Alcohol sy'n £3.4 miliwn ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi £3.0 miliwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf, £6.0 miliwn ar gyfer 2004-2005 a £9.0 miliwn ar gyfer 2005-2006.

10 Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd yr arian ychwanegol hwn yn caniatáu inni sefydlu pump o Dimau Cyffuriau ac Alcohol yn y Gymuned ledled Cymru. Golyga hyn fwy o nyrsys seiciatrig yn y gymuned, mwy o staff cymorth a mwy o amser i feddygon teulu ragnodi meddyginiaeth wahanol. Dylai hyn alluogi dros 1,000 o bobl ychwanegol i ddefnyddio'r gwasanaethau Dadwenwyno yn y Gymuned - bydd y maes yn ehangu dros y ddwy flynedd nesaf yn unol â'r cynnydd o ran arian.

11. Bydd y Gweinidog hefyd yn edrych ar y galw am welyau a nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfer triniaethau dadwenwyno ac adfer, a bydd yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

12. Mae yna dystiolaeth glir, ynghyd ag adroddiad gan yr Uned Allgáu Cymdeithasol "Reducing Re-offending by Ex-Prisoners" a gyhoeddwyd fis Mai diwethaf, sy'n dangos fod y bobl hynny sydd â llety ac sy'n cael cynhaliaeth ar ôl eu rhyddhau o'r carchar yn llai tebygol o ail-droseddu. Yn y gyllideb ddrafft, cyhoeddodd y Gweinidog gynnydd yn yr arian ar gyfer y gyllideb tai. Y bwriad yw y bydd rhywfaint o'r arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu rhyw fath o "dy hanner ffordd" i garcharorion ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, gan roi ystyriaeth arbennig i'r rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau.

13. Bydd y cynnydd a gyhoeddodd y Gweinidog ar gyfer y Gyllideb Mentrau Cyffuriau ac Alcohol hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal carcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae nifer o garcharorion sydd wedi llwyddo i roi'r gorau iddi tra roeddent yn y carchar, yn aml yn ail-gychwyn unwaith y byddant wedi eu rhyddhau oherwydd diffyg cefnogaeth ar ôl gadael y carchar. Byddant yn cael eu dal mewn cylch di-ddiwedd o ail-droseddu. Mae felly'n bwriadu darparu gweithwyr cymorth lleol ym mhob un o ardaloedd y Timau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol er mwyn targedu'r grwp yma o bobl. Bydd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y carchar hefyd.

14. Er mwyn helpu'r Partneriaethau Diogelwch yn y Gymuned â'r gost o ddatblygu cynlluniau statudol lleol ar gamddefnyddio sylweddau, byddant yn derbyn un taliad o £20,000 y flwyddyn nesaf.

15. Camau cychwynnol yn unig yw'r mesurau hyn. Bydd y newidiadau i'r gwasanaethau trin yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u cynyddu'n raddol er mwyn datblygu'r capasiti yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Gweinidog eisiau sicrhau bod yr arian newydd yn cael ei gyfeirio at y mannau lle bydd fwyaf effeithiol.

**Mentrau ariannu eraill**

16. Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys dyraniad o £11.2 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar gyfer **Cronfa Cymunedau Mwy Diogel** newydd. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu, a lle bo hynny'n briodol, i gydweithio â'r heddlu i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Bydd yr arian hwn yn cefnogi Tasglu a sefydlwyd gan heddluoedd y De i fynd i'r afael â'r mewnlifiad o gyffuriau Dosbarth A i'r ardaloedd hynny, a hefyd yn darparu cyllid ar gyfer y partneriaethau lleol i wneud gwaith o dan y cynllun cymunedau mwy diogel. Bydd yr arian hwn yn ychwanegu at y swm a gyhoeddodd y Swyddfa Gartref ar gyfer y Tasglu.

17 Yn ogystal, mae cynllun '**Cymunedau yn erbyn Cyffuriau' (CADs)** y Swyddfa Gartref yn targedu troseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau a chwalu'r farchnad gyffuriau mewn cymunedau. Mae dros £2.78 miliwn yn dod i Gymru yn 2002-03 (yr un swm â'r llynedd) a chaiff ei rannu rhwng yr holl Bartneriaethau Diogelwch yn y Gymuned, gan ffafrio'r cymunedau hynny sydd â'r problemau mwyaf o ran amddifadedd cymdeithasol. Ymhlith y prosiectau sy'n cael eu hariannu mae: wardeiniaid cymunedol; teledu cylch cyfyng; pecynau addysgu; gweithwyr estyn allan at bobl ifanc; gwell goleuo ar strydoedd ac ymchwiliadau cudd yr heddlu.

**Y Strwythur Trefniadol Newydd**

17. Gofynnir i Aelodau gyfeirio at lythyr a anfonodd y Gweinidog atynt ar 16 Hydref 2002 yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ar strwythur y Timau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol yn y dyfodol.

## Y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau

19. Sefydlwyd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau yn 2001 i roi cyngor proffesiynol annibynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

20. Cadeirydd y panel yw Richard Pates, Seicolegydd Clinigol. Mae'r panel yn cynnwys arbenigwyr o nifer o feysydd - iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr a'r sector gwirfoddol; cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf; addysg; awdurdodau lleol a Thimau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i gyfarfodydd y panel.

21. Mae Panel Cynghori o unigolion sy'n arbenigo yn eu maes yn hanfodol wrth helpu i weithredu'r strategaeth ddiwygiedig hon. Gallant gynnig cyngor arbenigol a hyrwyddo a lledaenu arferion gorau. Yn ddiweddar, cyfarfu'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau â Mr Pates, a chytunwyd y byddant yn cyfarfod bob chwarter. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o sicrhau bod y cyngor gorau posibl ar gael wrth frwydro yn erbyn bygythiad camddefnyddio sylweddau i Gymunedau Cymru.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

22 Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn, a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer ei drafodaeth.

**Edwina Hart MBE**

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Cyswllt:**

Peter Jones

Uned Diogelwch yn y Gymuned

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn (Llinell Uniongyrchol) 029 20 825512